O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 125

Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Trefniadau Etholiadol) 2026

Gwnaed *16 Hydref 2026*

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 125

The County of Carmarthenshire (Electoral Arrangements) Order 2026

Made *16 October 2026*

Coming into force in accordance with article 1(2) and (3)

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 125

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Trefniadau Etholiadol) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn"), a roddodd adroddiad ym mis Ionawr 2026 ar ei adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Roedd adroddiad y Comisiwn yn cynnig lleihau nifer y wardiau etholiadol o 51 i 47, a lleihau nifer y cynghorwyr o 75 i 74. Roedd adroddiad y Comisiwn hefyd yn argymell newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gaerfyrddin o ganlyniad i newidiadau i ffiniau cymunedau sydd eisoes wedi eu gweithredu.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion y Comisiwn heb addasiad.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r trefniadau etholiadol presennol ar gyfer Sir Gaerfyrddin ac yn cyflwyno'r Atodlen, sy'n nodi'r trefniadau etholiadol newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn gweithredu argymhellion ynghylch newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol ar gyfer rhai cymunedau yn Sir Gaerfyrddin. Yn dilyn newidiadau a wnaed i ffiniau cymunedau a wardiau cymunedol, ni weithredwyd y newidiadau canlyniadol ar gyfer y wardiau etholiadol ar yr un pryd.

Mae erthygl 4 yn darparu ar gyfer trosglwyddo rhan o gymuned Llanelli Wledig i gymuned Llangyndeyrn yn ward etholiadol Llangyndeyrn.

Mae erthygl 5 yn darparu ar gyfer trosglwyddo rhan o gymuned Trimsaran i gymuned Llangyndeyrn yn ward etholiadol Llangyndeyrn.

Mae erthygl 6 yn darparu ar gyfer trosglwyddo rhan o gymuned Pontyberem i gymuned Llangyndeyrn yn ward etholiadol Llangyndeyrn.

Mae erthygl 7 yn darparu ar gyfer trosglwyddo rhan o gymuned Llanboidy i ward etholiadol Hendy-gwyn ar Daf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Mae printiau o'r mapiau a labelwyd "1" i "4" y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â hwy wedi eu hadneuo yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Etholiadau), a chyda Chyngor Sir Gaerfyrddin. Mae'r printiau sydd wedi eu hadneuo gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin yn agored i gael eu harchwilio gan unrhyw un y bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn effeithio arnynt.

2026 Rhif 125

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Trefniadau Etholiadol) 2026

Gwnaed *16 Hydref 2026*

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru(**1**) ("y Comisiwn"), o dan adran 36(5) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013(**2**) (“Deddf 2013”), wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru adroddiad dyddiedig Ionawr 2026 yn cynnwys ei argymhellion ar gyfer newid a manylion ei adolygiad o’r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i argymhellion y Comisiwn heb addasiad.

O dan adran 37(3A) a (3B) o Ddeddf 2013(**3**), mae mwy na 6 wythnos wedi mynd heibio ers i’r argymhellion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru ac mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi datganiad yn nodi eu penderfyniad mewn cysylltiad â phob argymhelliad o dan adran 37(6) o Ddeddf 2013(**4**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 37(1)(a) a 40(1) a (2)(a) a (b) o Ddeddf 2013.

O dan adran 37(2A) o Ddeddf 2013(**5**), mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn fwy na 6 mis cyn diwrnod etholiad cyffredin cyngor o dan adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**6**).

(**1**) Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) (“Deddf 1972”) ac Atodlen 8 iddi. Diddymwyd adran 53 ac Atodlen 8 gan adran 73(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) (“Deddf 2013”) ac Atodlen 2 iddi. Gwnaeth Deddf 2013 ailenwi’r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (gweler adran 2(2)). Gwnaeth Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4) ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (gweler adran 12).

(**2**) 2013 dccc 4. Gwnaeth adran 11 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ailenwi enw byr Deddf 2013 yn Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

(**3**) Rhoddwyd adran 37(3A) a (3B) yn lle adran 37(3) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan adran 43(2) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (dsc 5).

(**4**) Mewnosodwyd adran 37(6) gan adran 49(2)(b) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

(**5**) Mewnosodwyd adran 37(2A) gan adran 47(3) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

(**6**) 1972 p. 70. Amnewidiwyd adran 26 gan adran 4(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19). Diwygiwyd adran 26 gan O.S. 2019/1269 (Cy. 220) i ddarparu mai’r flwyddyn y mae rhaid i etholiad cyffredin cynghorwyr

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Trefniadau Etholiadol) 2026.

(2) At unrhyw ddiben a nodir yn rheoliad 4(1) o Reoliadau 1976(**7**), daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Tachwedd 2026.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym am 23:59 o'r gloch ar y diwrnod cyn y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2027.

Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1972" (*"the 1972 Act"*) yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

ystyr "Deddf 2013" (*"the 2013 Act"*) yw Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013;

ystyr "Rheoliadau 1976" (*"the 1976 Regulations"*) yw Rheoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976;

ystyr "ward etholiadol" (*"electoral ward"*) yw unrhyw ardal yr etholir cynghorwyr drosti i Gyngor Sir Gaerfyrddin;

mae unrhyw gyfeiriad at fap yn golygu un o'r 4 map a farciwyd "Map o Orchymyn Sir Gaerfyrddin (Trefniadau Etholiadol) 2026" a adneuwyd yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau 1976, a labelwyd "1" i "4", ac mae cyfeiriad at y map â rhif yn gyfeiriad at y map sy'n dwyn y rhif hwnnw;

os dangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, rheilffordd, troedffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

(2) Mae i eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn yr un ystyr ag sydd iddynt yn Rhan 3 o Ddeddf 2013, ac eithrio i'r graddau yr ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb.

(3) Mae'r darpariaethau yn y Gorchymyn hwn yn cymryd blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth wrthdrawiadol mewn unrhyw offeryn statudol blaenorol a wnaed o dan adran 58(2) o Ddeddf 1972(**8**) neu orchymyn a wnaed o dan adran 37(1) o Ddeddf 2013(**9**).

Trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gaerfyrddin

3.—(1) Mae wardiau etholiadol Sir Gaerfyrddin, fel y maent yn bodoli yn union cyn y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2027, wedi eu diddymu.

(2) Mae Sir Gaerfyrddin wedi ei rhannu'n 47 o wardiau etholiadol, a phob un ohonynt yn dwyn yr enw Saesneg a restrir yng ngholofn 1 a'r enw Cymraeg a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

---

awdurdodau lleol gael ei gynnal yw 2022 yn hytrach na 2021. Diwygiwyd adran 26(1) ymhellach gan adran 14(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) i ddarparu bod rhaid i etholiadau gael eu cynnal bob pumed flwyddyn ar ôl 2022.

(**7**) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amryfal offerynnau statudol, nad yw'r diwygiadau hynny'n berthnasol at ddibenion y Gorchymyn hwn). Mae adran 74(3) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013") yn darparu bod y Rheoliadau yn parhau i gael effaith mewn perthynas â gorchmynion a wnaed o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, fel pe bai'r gorchmynion hynny wedi eu gwneud o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70).

(**8**) Diddymwyd adran 58 gan adran 73(2) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013") ac Atodlen 2 iddi, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed a bennir yn adran 74 o Ddeddf 2013.

(**9**) Diwygiwyd adran 37(1) gan adran 49(2)(a) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

(3) Mae pob ward etholiadol yn cynnwys yr ardaloedd a bennir mewn perthynas â'r ward etholiadol honno yng ngholofn 3 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(4) Nifer yr aelodau o Gyngor Sir Gaerfyrddin sydd i'w hethol dros bob ward etholiadol yw'r nifer a bennir yng ngholofn 4 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymunedau Llangyndeyrn a Llanelli Wledig - newidiadau canlyniadol i drefniadau ward etholiadol

4. Mae'r rhan o gymuned Llanelli Wledig a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 1 yn ffurfio rhan o gymuned Llangyndeyrn yn ward etholiadol Llangyndeyrn(**10**).

Cymunedau Llangyndeyrn a Thrimsaran - newidiadau canlyniadol i drefniadau ward etholiadol

5. Mae'r rhan o gymuned Trimsaran a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 2 yn ffurfio rhan o gymuned Llangyndeyrn yn ward etholiadol Llangyndeyrn(**11**).

Cymunedau Llangyndeyrn a Phontyberem - newidiadau canlyniadol i drefniadau ward etholiadol

6. Mae'r rhan o gymuned Pontyberem a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 3 yn ffurfio rhan o gymuned Llangyndeyrn yn ward etholiadol Llangyndeyrn(**12**).

Cymunedau Llanboidy a Hendy-gwyn ar Daf - newidiadau canlyniadol i drefniadau ward etholiadol

7. Mae'r rhan o gymuned Llanboidy a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 4 yn ffurfio rhan o gymuned Hendy-gwyn ar Daf yn ward etholiadol Hendy-gwyn ar Daf(**13**).

Siân Gwenllian
Y Gweinidog Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
16 Hydref 2026

(**10**) Am ddarpariaeth gysylltiedig, gweler erthygl 4 o Orchymyn Sir Gaerfyrddin (Llangyndeyrn a Chymunedau Cyfagos) 2025.
(**11**) Am ddarpariaeth gysylltiedig, gweler erthygl 6 o Orchymyn Sir Gaerfyrddin (Llangyndeyrn a Chymunedau Cyfagos) 2025.
(**12**) Am ddarpariaeth gysylltiedig, gweler erthygl 5 o Orchymyn Sir Gaerfyrddin (Llangyndeyrn a Chymunedau Cyfagos) 2025.
(**13**) Am ddarpariaeth gysylltiedig, gweler erthygl 4 o Orchymyn Sir Gaerfyrddin (Llanboidy a Hendy-gwyn ar Daf) 2025.

YR ATODLEN

Erthygl 3

ENWAU AC ARDALOEDD WARDIAU ETHOLIADOL A NIFER AELODAU'R CYNGOR

Tabl

Colofn (1)	*Colofn (2)*	*Colofn (3)*	*Colofn (4)*
Enw Saesneg y ward etholiadol	*Enw Cymraeg y ward etholiadol*	*Ardal y ward etholiadol*	*Nifer aelodau'r cyngor*
Aberbythych Gors-las	Aberbythych Gors-las	Cymunedau Llanfihangel Aberbythych, Llangathen a Gors-las	3
Abergwili	Abergwili	Cymunedau Abergwili a Llanllawddog	1
Ammanford	Rhydaman	Tref Rhydaman	2
Bigyn	Bigyn	Ward Bigyn o dref Llanelli	3
Burry Port	Porth Tywyn	Ward Porth Tywyn o dref Pen-bre a Phorth Tywyn	2
Bynea Llwynhendy	Bynea Llwynhendy	Wardiau Bynea a Pemberton o gymuned Llanelli Wledig	3
Carmarthen Town North and South	Gogledd a De Tref Caerfyrddin	Wardiau'r Gogledd a'r De o dref Caerfyrddin	3
Carmarthen Town West	Gorllewin Tref Caerfyrddin	Ward y Gorllewin o dref Caerfyrddin	2
Cenarth Llangeler	Cenarth Llangeler	Cymunedau Cenarth, Llangeler a thref Castellnewydd Emlyn	2
Cil-y-cwm	Cil-y-cwm	Cymunedau Cil-y-cwm, Cynwyl Gaeo, Llansadwrn, Llanwrda a Llan-y-crwys	1
Cwarter Bach	Cwarter Bach	Cymuned Cwarter Bach	1
Cynwyl Elfed	Cynwyl Elfed	Cymunedau Bronwydd, Cynwyl Elfed a Llanpumsaint	1
Dafen Felin-foel	Dafen Felin-foel	Wardiau Dafen a Felin-foel o gymuned Llanelli Wledig	2
Elli	Elli	Ward Elli o dref Llanelli	1
Glanaman	Glanaman	Wardiau Grenig a Thir-coed o dref Cwmaman	1
Glan-y-môr	Glan-y-môr	Ward Glan-y-môr o dref Llanelli	2

Colofn (1)	*Colofn (2)*	*Colofn (3)*	*Colofn (4)*
Glyn	Glyn	Ward Glyn o gymuned Llanelli Wledig	1
Hengoed	Hengoed	Ward Hengoed o gymuned Llanelli Wledig	2
Kidwelly St Ishmael	Cydweli Llanismel	Tref Cydweli a chymuned Llanismel	2
Laugharne Township	Talacharn	Cymunedau Eglwys Gymin, Lacharn, Llanddowror a Phentywyn	1
Llanboidy	Llanboidy	Cymunedau Cilymaenllwyd, Llanboidy a Llangynin	1
Llanddarog	Llanddarog	Cymunedau Llanarthne a Llanddarog	1
Llandeilo	Llandeilo	Cymuned Dyffryn Cennen a thref Llandeilo	1
Llandovery	Llanymddyfri	Tref Llanymddyfri a chymuned Llanfair-ar-y-Bryn	1
Llandybïe Pen-y-groes	Llandybïe Pen-y-groes	Wardiau Heol-ddu, Llandybïe a Phen-y-groes o gymuned Llandybïe	3
Llanegwad	Llanegwad	Cymunedau Llanegwad, Llanfihangel Rhos-y-corn a Llanfynydd	1
Llanfihangel-ar-arth	Llanfihangel-ar-arth	Cymunedau Llanfihangel-ar-arth a Llanllwni	1
Llangadog	Llangadog	Cymunedau Llanddeusant, Llangadog a Myddfai	1
Llangennech	Llangennech	Cymuned Llangennech	2
Llangyndeyrn	Llangyndeyrn	Cymunedau Llandyfaelog a Llangyndeyrn	2
Llangynnwr	Llangynnwr	Cymuned Llangynnwr	1
Llan-non	Llan-non	Cymuned Llan-non	2
Llansteffan Sanclêr	Llansteffan Sanclêr	Cymunedau Llan-gain, Llangynog, Llansteffan a Sanclêr	2
Llanybydder	Llanybydder	Cymunedau Llanybydder a Phencarreg	1
Lliedi	Lliedi	Ward Lliedi o dref Llanelli	2
Manordeilo Salem	Manordeilo Salem	Cymunedau Llansawel, Maenordeilo a Salem, a Thalyllychau	1

Colofn (1)	*Colofn (2)*	*Colofn (3)*	*Colofn (4)*
Pembrey	Pen-bre	Ward Pen-bre o dref Pen-bre a Phorth Tywyn	2
Pontyberem	Pontyberem	Cymuned Pontyberem	1
Saron	Saron	Ward Saron o gymuned Llandybïe	2
Swiss Valley	Dyffryn y Swistir	Ward Swiss Valley o gymuned Llanelli Wledig	1
Tre-lech	Tre-lech	Cymunedau Aber-nant, Llanwinio, Meidrim, Llannewydd a Merthyr, a Thre-lech a'r Betws	1
Trimsaran	Trimsaran	Cymuned Trimsaran	1
Tŷ-croes Yr Hendy	Tŷ-croes Yr Hendy	Wardiau Hendy, Llanedi a Thŷ-croes o gymuned Llanedi	2
Tyisha	Tyisa	Ward Tyisha o dref Llanelli	2
Whitland	Hendy-gwyn ar Daf	Cymuned Henllanfallteg a thref Hendy-gwyn ar Daf	1
Y Betws	Y Betws	Cymuned y Betws	1
Y Garnant	Y Garnant	Wardiau Pistyll-llwyd a Thwyn o dref Cwmaman	1

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 125

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The County of Carmarthenshire (Electoral Arrangements) Order 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order implements the recommendations of the Democracy and Boundary Commission Cymru ("the Commission"), which reported in January 2026 on its review of the electoral arrangements for the County of Carmarthenshire. The Commission's report proposed a reduction in the number of electoral wards from 51 to 47 and a decrease in the number of councillors from 75 to 74. The Commission's report also recommended consequential changes to electoral arrangements for the County of Carmarthenshire as a result of changes to community boundaries that have already been implemented.

This Order implements the Commission's recommendations without modification.

Article 3 of this Order abolishes the existing electoral arrangements for the County of Carmarthenshire and introduces the Schedule, which sets out the new electoral arrangements for the County of Carmarthenshire.

This Order also implements recommendations for consequential changes to electoral arrangements for some communities within the County of Carmarthenshire. Following changes made to community and community ward boundaries, the consequential changes were not implemented for the electoral wards at the same time.

Article 4 provides for the transfer of part of the community of Llanelli Rural to the community of Llangyndeyrn in the electoral ward of Llangyndeyrn.

Article 5 provides for the transfer of part of the community of Trimsaran to the community of Llangyndeyrn in the electoral ward of Llangyndeyrn.

Article 6 provides for the transfer of part of the community of Pontyberem to the community of Llangyndeyrn in the electoral ward of Llangyndeyrn.

Article 7 provides for the transfer of part of the community of Llanboidy to Whitland electoral ward.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

Prints of the maps labelled "1" to "4" to which this Order relates are deposited in the office of the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ (Elections Division), and with Carmarthenshire County Council. Prints deposited with Carmarthenshire County Council are open to inspection by anyone affected by the provisions of this Order.

2026 No. 125

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The County of Carmarthenshire (Electoral Arrangements) Order 2026

Made *16 October 2026*

Coming into force in accordance with article 1(2) and (3)

The Democracy and Boundary Commission Cymru(**1**) ("the Commission") has, under section 36(5) of the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013(**2**) ("the 2013 Act"), submitted to the Welsh Ministers a report dated January 2026 containing its recommendations for change and the details of its review of the electoral arrangements for the County of Carmarthenshire.

The Welsh Ministers have decided to give effect to the Commission's recommendations without modification.

Under section 37(3A) and (3B) of the 2013 Act(**3**), more than 6 weeks have elapsed since those recommendations were submitted to the Welsh Ministers and the Welsh Ministers have had regard to any representations made during that period.

The Welsh Ministers have published a statement setting out their decision in respect of each recommendation under section 37(6) of the 2013 Act(**4**).

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred on them by sections 37(1)(a) and 40(1) and (2)(a) and (b) of the 2013 Act.

(**1**) The Local Government Boundary Commission for Wales was established by section 53 of, and Schedule 8 to, the Local Government Act 1972 (c. 70) ("the 1972 Act"). Section 53 and Schedule 8 were repealed by section 73(2) of, and Schedule 2 to, the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 (anaw 4) ("the 2013 Act"). The 2013 Act renamed the Local Government Boundary Commission for Wales as the Local Democracy and Boundary Commission for Wales (see section 2(2)). The Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 (asc 4) renamed the Local Democracy and Boundary Commission for Wales as the Democracy and Boundary Commission Cymru (see section 12).

(**2**) 2013 anaw 4. Section 11 of the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 renamed the short title of the 2013 Act as the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013.

(**3**) Section 37(3A) and (3B) was substituted for 37(3) of the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013 by section 43(2) of the Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024 (asc 5).

(**4**) Section 37(6) was inserted by section 49(2)(b) of the Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024.

Under section 37(2A) of the 2013 Act(**5**), the Welsh Ministers make this Order more than 6 months preceding the day of an ordinary council election under section 26 of the Local Government Act 1972(**6**).

Title and coming into force

1.—(1) The title of this Order is the County of Carmarthenshire (Electoral Arrangements) Order 2026.

(2) For any purpose set out in regulation 4(1) of the 1976 Regulations(**7**), this Order comes into force on 6 November 2026.

(3) For all other purposes, this Order comes into force at 23:59 hours on the day before the ordinary day of election of councillors in 2027.

Interpretation

2.—(1) In this Order—

"the 1972 Act" ("*Deddf 1972*") means the Local Government Act 1972;

"the 1976 Regulations" ("*Rheoliadau 1976*") means the Local Government Area Changes Regulations 1976;

"the 2013 Act" ("*Deddf 2013*") means the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013;

"electoral ward" ("*ward etholiadol*") means any area for which councillors are elected to Carmarthenshire County Council;

any reference to a map means one of the 4 maps marked "Map of the County of Carmarthenshire (Electoral Arrangements) Order 2026" deposited in accordance with regulation 5 of the 1976 Regulations, labelled "1" to "4", and a reference to the numbered map is a reference to the map that bears that number;

where a boundary is shown on a map as running along a road, railway line, footway, watercourse or similar geographical feature, it is to be treated as running along the centre line of the feature.

(2) Words and expressions used in this Order have the same meaning as they have in Part 3 of the 2013 Act, except so far as a contrary intention appears.

(3) The provisions in this Order take precedence over any conflicting provision in any previous statutory instrument made under section 58(2) of the 1972 Act(**8**) or order made under section 37(1) of the 2013 Act(**9**).

(**5**) Section 37(2A) was inserted by section 47(3) of the Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024.

(**6**) 1972 c. 70. Section 26 was substituted by section 4(2) of the Local Government (Wales) Act 1994 (c. 19). Section 26 was amended by S.I. 2019/1269 (W. 220) to provide that the year in which an ordinary election of councillors of local authorities must take place is 2022 instead of 2021. Section 26(1) was further amended by section 14(2) of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (asc 1) to provide that elections must take place every fifth year after 2022.

(**7**) S.I. 1976/246 (as amended by various statutory instruments, to which there are amendments not relevant to this Order). Section 74(3) of the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013 ("the 2013 Act") provides that the Regulations continue to have effect in relation to orders made under Part 3 of the 2013 Act, as if those orders were made under Part 4 of the Local Government Act 1972 (c. 70).

(**8**) Section 58 was repealed by section 73(2) of, and Schedule 2 to, the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013 ("the 2013 Act"), subject to savings provisions specified in section 74 of the 2013 Act.

(**9**) Section 37(1) was amended by the Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024, section 49(2)(a).

Electoral arrangements for the County of Carmarthenshire

3.—(1) The electoral wards of the County of Carmarthenshire, as they exist immediately before the ordinary day of election of councillors in 2027, are abolished.

(2) The County of Carmarthenshire is divided into 47 electoral wards each bearing the English language name listed in column 1 and the Welsh language name listed in column 2 of the Table in the Schedule to this Order.

(3) Each electoral ward comprises the areas specified in relation to that electoral ward in column 3 of the Table in the Schedule to this Order.

(4) The number of members of Carmarthenshire County Council to be elected for each electoral ward is the number specified in column 4 of the Table in the Schedule to this Order.

The communities of Llangyndeyrn and Llanelli Rural - consequential changes to electoral ward arrangements

4. The part of the community of Llanelli Rural shown shaded on Map 1 forms part of the community of Llangyndeyrn in the electoral ward of Llangyndeyrn(**10**).

The communities of Llangyndeyrn and Trimsaran - consequential changes to electoral ward arrangements

5. The part of the community of Trimsaran shown shaded on Map 2 forms part of the community of Llangyndeyrn in the electoral ward of Llangyndeyrn(**11**).

The communities of Llangyndeyrn and Pontyberem - consequential changes to electoral ward arrangements

6. The part of the community of Pontyberem shown shaded on Map 3 forms part of the community of Llangyndeyrn in the electoral ward of Llangyndeyrn(**12**).

The communities of Llanboidy and Whitland - consequential changes to electoral ward arrangements

7. The part of the community of Llanboidy shown shaded on Map 4 forms part of the community of Whitland in the electoral ward of Whitland(**13**).

Siân Gwenllian
Cabinet Minister for Local Government, Housing and Planning, one of the Welsh Ministers
16 October 2026

(**10**) For related provision, see article 4 of the Carmarthenshire (Llangyndeyrn and Adjacent Communities) Order 2025.
(**11**) For related provision, see article 6 of the Carmarthenshire (Llangyndeyrn and Adjacent Communities) Order 2025.
(**12**) For related provision, see article 5 of the Carmarthenshire (Llangyndeyrn and Adjacent Communities) Order 2025.
(**13**) For related provision, see article 4 of the Carmarthenshire (Llanboidy and Whitland) Order 2025.

SCHEDULE

Article 3

NAMES AND AREAS OF ELECTORAL WARDS AND NUMBER OF MEMBERS OF THE COUNCIL

Table

Column (1)	*Column (2)*	*Column (3)*	*Column (4)*
English language name of electoral ward	*Welsh language name of electoral ward*	*Area of electoral ward*	*Number of members of the council*
Aberbythych Gors-las	Aberbythych Gors-las	The communities of Llanfihangel Aberbythych, Llangathen and Gorslas	3
Abergwili	Abergwili	The communities of Abergwili and Llanllawddog	1
Ammanford	Rhydaman	The town of Ammanford	2
Bigyn	Bigyn	The Bigyn ward of the town of Llanelli	3
Burry Port	Porth Tywyn	The Burry Port ward of the town of Pembrey and Burry Port	2
Bynea Llwynhendy	Bynea Llwynhendy	The Bynea and Pemberton wards of the community of Llanelli Rural	3
Carmarthen Town North and South	Gogledd a De Tref Caerfyrddin	The North and South wards of the town of Carmarthen	3
Carmarthen Town West	Gorllewin Tref Caerfyrddin	The West ward of the town of Carmarthen	2
Cenarth Llangeler	Cenarth Llangeler	The communities of Cenarth, Llangeler and the town of Newcastle Emlyn	2
Cil-y-cwm	Cil-y-cwm	The communities of Cilycwm, Cynwyl Gaeo, Llansadwrn, Llanwrda and Llanycrwys	1
Cwarter Bach	Cwarter Bach	The community of Quarter Bach	1
Cynwyl Elfed	Cynwyl Elfed	The communities of Bronwydd, Cynwyl Elfed and Llanpumsaint	1
Dafen Felin-foel	Dafen Felin-foel	The Dafen and Felinfoel wards of the community of Llanelli Rural	2
Elli	Elli	The Elli ward of the town of Llanelli	1

Column (1)	*Column (2)*	*Column (3)*	*Column (4)*
Glanaman	Glanaman	The Grenig and Tircoed wards of the town of Cwmamman	1
Glan-y-môr	Glan-y-môr	The Glanymor ward of the town of Llanelli	2
Glyn	Glyn	The Glyn ward of the community of Llanelli Rural	1
Hengoed	Hengoed	The Hengoed ward of the community of Llanelli Rural	2
Kidwelly St Ishmael	Cydweli Llanismel	The town of Kidwelly and the community of St Ishmael	2
Laugharne Township	Talacharn	The communities of Eglwyscummin, Laugharne Township, Llanddowror and Pendine	1
Llanboidy	Llanboidy	The communities of Cilymaenllwyd, Llanboidy and Llangynin	1
Llanddarog	Llanddarog	The communities of Llanarthney and Llanddarog	1
Llandeilo	Llandeilo	The community of Dyffryn Cennen and the town of Llandeilo	1
Llandovery	Llanymddyfri	The town of Llandovery and the community of Llanfair-ar-y-Bryn	1
Llandybïe Pen-y-groes	Llandybïe Pen-y-groes	The Heolddu, Llandybie and the Penygroes wards of the community Llandybie	3
Llanegwad	Llanegwad	The communities of Llanegwad, Llanfihangel Rhos-y-Corn and Llanfynydd	1
Llanfihangel-ar-arth	Llanfihangel-ar-arth	The communities of Llanfihangel-ar-Arth and Llanllwni	1
Llangadog	Llangadog	The communities of Llanddeusant, Llangadog and Myddfai	1
Llangennech	Llangennech	The community of Llangennech	2
Llangyndeyrn	Llangyndeyrn	The communities of Llandyfaelog and Llangyndeyrn	2
Llangynnwr	Llangynnwr	The community of Llangunnor	1
Llan-non	Llan-non	The community of Llannon	2
Llansteffan Sanclêr	Llansteffan Sanclêr	The communities of Llangain, Llangynog, Llansteffan and St Clears	2

Column (1)	*Column (2)*	*Column (3)*	*Column (4)*
Llanybydder	Llanybydder	The communities of Llanybydder and Pencarreg	1
Lliedi	Lliedi	The Lliedi ward of the town of Llanelli	2
Manordeilo Salem	Manordeilo Salem	The communities of Llansawel, Manordeilo and Salem, and Talley	1
Pembrey	Pen-bre	The Pembrey ward of the town of Pembrey and Burry Port	2
Pontyberem	Pontyberem	The community of Pontyberem	1
Saron	Saron	The Saron ward of the community of Llandybie	2
Swiss Valley	Dyffryn y Swistir	The Swiss Valley ward of the community of Llanelli Rural	1
Tre-lech	Tre-lech	The communities of Abernant, Llanwinio, Meidrim, Newchurch and Merthyr, and Trelech a'r Betws	1
Trimsaran	Trimsaran	The community of Trimsaran	1
Tŷ-croes Yr Hendy	Tŷ-croes Yr Hendy	The Hendy, Llanedi and Tycroes wards of the community of Llanedi	2
Tyisha	Tyisa	The Tyisha ward of the town of Llanelli	2
Whitland	Hendy-gwyn ar Daf	The community of Henllanfallteg and the town of Whitland	1
Y Betws	Y Betws	The community of Betws	1
Y Garnant	Y Garnant	The Pistillwyd and Twyn wards of the town of Cwmamman	1